

Llywodraethu a Llais y Tenant: adolygu a dilysu

Modiwl ASYT newydd

Mae gwasanaeth cymorth a dilysu cenedlaethol ASYT (Aseiad Safonau Ymgysylltu â Thenantiaid) gan TPAS Cymru yn rhoi cyngor a thystiolaeth i landlordiaid cymdeithasol i'ch helpu i ddangos ymrwymiad eich sefydliad i ymgysylltiad a llais tenantiaid.



Rydym bellach wedi datblygu **Modiwl Llywodraethu** annibynnol newydd ASYT sy'n canolbwyntio ar lais y tenant mewn llywodraethu.

Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn helpu eich sefydliad i adolygu ac asesu eich trefniadau llywodraethu presennol mewn perthynas â llais y tenant ar lefel bwrdd yn annibynnol, i ystyried arfer da ac i ddangos sut rydych yn bodloni 'Safonau Rheoleiddio' Llywodraeth Cymru.

Gallwn hefyd ddarparu amrywiaeth o argymhellion i'ch helpu i archwilio ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys clywed lleisiau ystod amrywiol o denantiaid ar lefel lywodraethu.



Felly pam ddylai eich sefydliad gynnal y gwasanaeth dilysu ac asesu hwn?

Bydd yr aseiad yn:

- ✓ Eich helpu i adolygu eich sefyllfa bresennol o ran sicrhau cyfranogiad tenantiaid mewn llywodraethu a nodi cyfleoedd i wella.
- ✓ Darparu tystiolaeth annibynnol i ddangos eich bod yn bodloni neu'n gweithio tuag at fodloni disgwyliadau a Safonau Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru.
- ✓ Eich helpu i amlygu meysydd o arfer da yn eich sefydliad.
- ✓ Dangos eich ymrwymiad i gynnwys tenantiaid mewn llywodraethu.

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â:

David Lloyd, Cyfarwyddwr Rhaglen: david@tpas.cymru